**ADRODDIAD I FWRDD TYFU CANOLBARTH CYMRU**

**26 Medi 2022**

| | |
|---|---|
| TEITL: | Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru – Diweddariad ynghylch Cynnydd |
| AWDUR: | Aggie Caesar-Homden, Rheolwr y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.<br>Aggie.caesar-homden@powys.gov.uk |

## 1. Diben yr adroddiad

1.1. Rhoi i Aelodau Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru ddiweddariad ynghylch cynnydd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru.

## 2. Penderfyniad a geisir

2.1. Nodi'r cynnydd hyd yn hyn.

## 3. Cefndir ac ystyriaethau perthnasol

3.1. Ers cyfarfod diwethaf Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru mae Rheolwr y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, ynghyd â Rheolwyr Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol eraill ledled Cymru, wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd â gweision sifil Llywodraeth Cymru i drafod rhaglen waith y dyfodol a therfynau amser cysylltiedig ac i gytuno arnynt.

3.2. Cafodd y Nodyn Cyfarwyddyd a gymeradwywyd ei gyhoeddi ym mis Mai 2022. Yn dilyn trafodaethau mewnol Llywodraeth Cymru ag Arweinwyr Polisi yn ystod y misoedd diwethaf, mae'r terfynau amser wedi'u diwygio erbyn hyn.

3.3. Caiff y cynnwys ei ddiweddaru bob chwe mis a'i ailgyflwyno i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau i gyfeiriad polisi ac adlewyrchu cynnydd o ran cerrig milltir allweddol. At hynny, o ystyried y cyfnod economaidd cythryblus yr ydym yn byw ynddo, gyda'r rhyfel yn nwyrain Ewrop, problemau o ran gwaddol Brexit a phandemig sy'n parhau, gallai fod angen i Lywodraeth Cymru ganolbwyntio o'r newydd ac ar fyr rybudd ar anghenion sy'n codi o ganlyniad i newid annisgwyl.

3.4. Bydd angen i Lywodraeth Cymru gadw'r gallu i gomisiynu gwaith newydd "yn ystod y flwyddyn", er enghraifft dadansoddiad o anghenion y Sector Gofal Cymdeithasol ac anghenion y Sector Creadigol o ran sgiliau, a'r angen i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol gydweithio'n agos â Cymru Greadigol.

## 4. Blaenraglen Waith

4.1. Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn parhau i ddarparu safbwynt rhanbarthol er mwyn llywio strategaethau sgiliau sector cenedlaethol a strategaethau sgiliau sector y DU a darparu data gwaelodlin ar gyfer cynllunio addysg bellach, gan ddefnyddio gwybodaeth a gaiff ei harwain gan gyflogwyr a data gwybodaeth am y farchnad lafur.

4.2. Mae gofyn i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ddarparu Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau 3 blynedd (2022-25) a chynllun gweithredu a fydd yn nodi blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi rhanbarthol sy'n cynnal swyddi a thwf yn rhanbarth y Canolbarth.

4.3. Bydd y cynllun yn cael ei ategu gan nifer o atodiadau a fydd yn canolbwyntio ar wahanol feysydd polisi sy'n cael sylw yn y Rhaglen Lywodraethu.

4.4. Mae arweinwyr polisi perthnasol o bob rhan o Lywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i ddarparu cyd-destun ychwanegol a diweddariadau o'u meysydd.

4.5. Mae angen nodi'r pethau allweddol sydd i'w cyflawni yn ystod y 12 mis nesaf ar gyfer pob un o'r meysydd isod:

- Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau 2022 – 2025
- Sgiliau Digidol
- Sgiliau Sero Net
- Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol
- Addysg Bellach a Phrentisiaethau
- Y Gymraeg
- Y Warant i Bobl Ifanc

4.6. Mae'r flaenraglen waith ei hun yn fawr, ac yn sgil hyblygrwydd Llywodraeth Cymru i adolygu a chomisiynu gwaith ychwanegol bob chwe mis bydd yna oblygiadau o ran adnoddau er mwyn cyflawni'r lefel ofynnol o allbynnau.

4.7. Er mwyn cefnogi'r maes gweithgarwch hwn, mae'r arolwg Cyflogaeth a Sgiliau blynyddol wedi'i ddosbarthu drwy gysylltiadau busnes, partneriaid ac aelodau o Fwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol. Y dyddiad cau ar gyfer cymryd rhan ynddo yw 9 Medi 2022.

## 5. Llythyr Dyfarnu Grant y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol

5.1. Erbyn hyn, mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi cael copi o'r Llythyr Dyfarnu Grant a dogfennau Targedau Atodlen 2. Mae cyllid wedi'i gymeradwyo ar gyfer y tair blynedd nesaf tan 2025.

5.2. Yn unol â thelerau'r Llythyr Dyfarnu Grant, cafodd yr Adroddiad ynghylch Gweithgarwch y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a'r Hawliad ar Ffurf Anfoneb eu cyflwyno ddiwedd mis Gorffennaf 2022.

## 6. Y Warant i Bobl Ifanc

6.1. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn egluro ymrwymiad uchelgeisiol i gyflawni'r Warant i Bobl Ifanc, sy'n cynnig cymorth i bawb dan 25 oed i ymgymryd â gwaith, addysg, hyfforddiant neu hunangyflogaeth.

6.2. Cafodd y Warant ei chreu er mwyn sicrhau na fyddai cenhedlaeth yn cael ei cholli ar draws Cymru o ganlyniad i'r dirywiad economaidd a ragwelir a'r cynnydd enfawr mewn diweithdra o ganlyniad i Covid a Brexit.

6.3. Ar ôl cynnal ymarfer Dyfynbris Cyflym llwyddiannus, cafodd Hatch Associates eu comisiynu i ddarparu cymorth technegol ar gyfer y darn hwn o waith.

6.4. Cafodd ymarfer i fapio'r ddarpariaeth bresennol ei gynnal a'i rannu â Cymru'n Gweithio. Mae Hatch wedi darparu adroddiad drafft sy'n ystyried y rhwystrau o ran darpariaeth a chynnydd, yn rhan o'r adroddiad ymchwil pen-desg a'r Cynllun Gweithredu.

6.5. Darparodd Hatch ddiweddariad ynghylch cynnydd i Fwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2022.

6.6. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ar lafar y bydd angen gwneud gwaith pellach yn y maes polisi hwn. Caiff mwy o wybodaeth ei darparu maes o law.

6.7. Mae gwaith yn dechrau mynd rhagddo i recriwtio ail Swyddog Prosiect ar gyfer y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, a fydd yn arwain gweithgareddau'n ymwneud â'r Warant i Bobl Ifanc ac yn hybu gwaith tîm ehangach y Bartneriaeth.

## 7. Cyfarfod Blynyddol Bwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a Recriwtio Cadeirydd Bwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol

7.1. Bydd Cyfarfod Blynyddol y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn cael ei gynnal ddydd Llun 12 Medi lle bydd enw Cadeirydd newydd yn cael ei gyhoeddi.

7.2. Gofynnir i arweinwyr busnes ac arbenigwyr economaidd fynegi diddordeb mewn bod yn Gadeirydd Bwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.

7.3. Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol hefyd wedi gofyn am i'r cyfle i arweinwyr busnes ymuno â'r Bwrdd / grwpiau clwstwr gael ei rannu.

7.4. Mae'r cyfleoedd hyn wedi cael eu hysbysebu drwy'r ddau awdurdod lleol a llythyr newyddion Tyfu Canolbarth Cymru yn ogystal ag ar gyfryngau cymdeithasol.

## 8. Llythyr newyddion Tyfu Canolbarth Cymru

8.1. Cafodd llythyr newyddion Tyfu Canolbarth Cymru ei gyhoeddi ar 22 Awst. Mae'r dolenni cyswllt wedi'u copïo isod.

8.2. Cylchlythyr Tyfu Canolbarth Cymru (office.com) neu Growing Mid Wales Newsletter (office.com)

8.3. Yn y rhifyn hwn, canolbwyntir ar Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru – beth yw'r Bartneriaeth, y cynnydd a wnaed hyd yn hyn, ei gynlluniau ar

gyfer y dyfodol, ac arolwg Cyflogaeth a Sgiliau Canolbarth Cymru sy'n cau ganol dydd, ddydd Gwener **09 Medi**.

## 9 Logo Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru (RSP)

9.1 Un o ofynion Llywodraeth Cymru bod gan Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol eu gwefannau eu hunain. Wrth ddatblygu gwefan RSP Canolbarth Cymru, cafodd canllawiau brandio eu hadolygu.

9.2 Ar hyn o bryd, mae'r RSP Canolbarth Cymru yn rhannu logo Tyfu Canolbarth Cymru. Fel partneriaeth strategol lefel uchel teimlir y byddai cael brand adnabyddus yn fuddiol i'r RSP.

9.3 Cymharu'r logos ar gyfer cytundeb/partneriaethau twf eraill ledled Cymru, y fformat yw defnyddio'r prif logo gyda thestun ychwanegol i adlewyrchu'r RSP.

9.4 Gyda hyn mewn golwg, y cynnig yw dilyn yr esiampl o Bartneriaeth Sgiliau Gogledd Cymru a Partneriaeth Sgiliau Phrifddinas Rhanbarth Caerdydd:

9.5 Ar gyfer RSP Canolbarth Cymru, y drafft isod yw'r logo sy'n cael ei ffafrio. Teimlwyd bod lliwiau gwahanol ar gyfer testun Cymraeg a Saesneg yn help i wahaniaethu rhwng yr ieithoedd ar olwg a byddai'n hawdd eu cydnabod fel brand.

**Penderfyniadau a Geisir**

9.6 Ar gyfer aelodau Cyd-bwyllgor GMW i gymeradwyo logo arfaethedig yr RSP fel uchod.

## 10. Goblygiadau cyfreithiol

10.1. Nid oes goblygiadau cyfreithiol yn codi o'r adroddiad hwn.

## 11. Goblygiadau o ran adnoddau dynol

11.1. Nid oes goblygiadau o ran adnoddau dynol yn codi o'r adroddiad hwn.

## 12. Goblygiadau ariannol

12.1. Nid oes goblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

## 13. Atodiadau

13.1. Dim